# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 29 Ebrill 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a/ac J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
F. Williams, Cynorthwy-ydd Rheoli Datblygu (Mwynau a Gwastraff)
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.42 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D. Phillips | 3: PL / 00750 - Cadw'r estyniad i bwll slyri presennol at ddibenion lles yn Nantygoetre Isaf, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5YA | Yn hyfforddi tîm Tynnu Rhaff Llanboidy ac mae'r ymgeisydd yn y garfan |

## 3. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/40307** | **Estyniad arfaethedig a chodi lefelau'r iard storio ddiwydiannol bresennol ynghyd â llefydd parcio cysylltiedig, cabanau symudol ar gyfer staff, hopranau diwydiannol a phont bwyso ar dir ger ystâd ddiwydiannol WDA, Porth Tywyn, Llanelli, SA16 0NN** |

| | |
|---|---|
| | **(Sylwer: mae'r caniatâd hefyd yn amodol ar Gytundeb Adran 106)** |
| **PL/00750** | **Cadw'r estyniad i bwll slyri presennol at ddibenion lles yn Nantygoetre Isaf, Llandyfaelog, Cidweli, SA17 5YA**<br><br>(NODER: Gan fod y Cynghorydd D Phillips wedi datgan buddiant yn cais hwn eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem gan y Pwyllgor)<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebiad y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio. Roedd y rheiny'n cynnwys pryderon ynghylch graddfa'r pwll slyri a pha mor agos yr oedd at eiddo'r gwrthwynebydd, effaith andwyol ar yr amwynderau oherwydd pryfed, aroglau a sŵn, iechyd, diogelwch cymunedol, pa mor agos oedd pyllau slyri eraill y cludir slyri iddynt, y potensial i gludo slyri i'r safle o fferm gyfagos yr ymgeisydd a bydd cynnydd mewn traffig yn cynyddu llygredd. Rhoddwyd hefyd ystyriaeth i'r ffaith fod y cynllun rheoli a gyflwynwyd yn wallus, roedd gwallau yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio ac roedd y cynnig yn groes i bolisi GP1 y Cynllun Datblygu Lleol<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |
| **PL/00935** | **Estyniad deulawr ar ochr yr eiddo a phortsh blaen newydd - Blaenau Isaf, Cross Hands, Llanelli, SA14 6DD** |
| **PL/01348** | **Bwriad i ddymchwel yr adeilad presennol ac ailadeiladu i ddarparu 12 fflat gofal preswyl (dosbarth c2) a swyddfa weinyddol gysylltiedig yn 33-35 Stryd Murray, Llanelli, SA15 1BQ** |

**4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00959** | **Cyfleuster arfaethedig ar gyfer gwaith potelu llaeth yn cynnwys swyddfa ategol (b2) gan gynnwys storio (b8) a gwaith seilwaith cysylltiedig. Fferm Penrhiw, Cwmisfael, Caerfyrddin, SA31 8BY** |
| **PL/01054** | **Adeiladu preswylfa ar wahân newydd ar lain 4, rhan o gae rhif. 6555, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS**<br><br>Er nad oedd gwrthwynebydd y cais yn gallu bod yn bresennol wrth i'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais uchod, cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig yn lle hynny, trwy e-bost, yn manylu ar y gwrthwynebiadau i'r datblygiad arfaethedig. Darllenwyd y sylwadau hynny i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Datblygu a Threftadaeth Adeiledig ac ail-bwysleisiwyd y pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y |

| | |
|---|---|
| | Pennaeth Cynllunio. Roeddent yn cynnwys pryderon yn ymwneud â phreifatrwydd, edrych dros eiddo, balconi arfaethedig Juliette (a oedd wedi'i dynnu o'r cais), mynediad i'r briffordd a mabwysiadu ffordd yr ystâd.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.<br><br>(Sylwer: mae caniatâd hefyd yn amodol ar lofnodi'r Ymgymeriad Unochrog ar gyfer y cyfraniad tai fforddiadwy) |

**5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1AF EBRILL, 2021.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2021 yn gofnod cywir.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]